# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Medi 2024

Amser: 09.30 - 12.23

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/14093) yn:

[http://senedd.tv/cy/14093](http://senedd.tv/cy/14093)

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Mick Antoniw AS (yn lle Hefin David AS) |
| Tystion: | Ceri Cunnington, Cwmni Bro Ffestiniog<br>Professor Anne Green, University of Birmingham<br>Yr Athro Karel Williams, Ysgol Fusnes Manceinion<br>Matthew Brown, Cyngor Dinas Preston<br>Harry Thompson, Cynnal Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Madelaine Phillips (Ymchwilydd)<br><br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Vikki Howells wedi rhoi'r gorau i'w haelodaeth o'r Pwyllgor ers iddi gael ei phenodi'n Weinidog Addysg Bellach ac Uwch.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David. Dirprwyodd Mick Antoniw ar ei rhan.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

2.1 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymchwil a Datblygu

2.3 Sesiwn ddilynol gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog – Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

2.4 Sesiwn ddilynol gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

2.5 Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach

2.27 Dyfodol Dur yng Nghymru

2.7 Iechyd a lles anifeiliaid – defnyddio cewyll ar gyfer adar hela

2.8 Hybu Cig Cymru – diwylliant a gweithrediadau

2.9 Polisi 'Bwyd o Bwys: Cymru' Llywodraeth Cymru

2.10 Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

2.11 Diwygio'r Ardoll Brentisiaethau

2.12 Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – adborth gan randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru

2.13 Yr economi werdd

2.14 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Cyswllt Ffermio

2.15 Strategaeth Ryngwladol a Maes Awyr Cymru Caerdydd

2.16 Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024")

2.17 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

2.18 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Gweinidogion Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a Gwasanaeth Symudiadau Gwartheg Prydain

2.19 **Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

## 3 Yr Economi Sylfaenol - Panel 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Karel Williams (Prifysgol Manceinion), yr Athro Anne Green (Prifysgol Birmingham), a Harry Thompson (Cynnal Cymru).

3.2 Cytunodd Harry Thompson i rannu adroddiad ar y Gymuned Ymarfer a sefydlwyd ar gyfer Cronfa Her Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru.

## 4 Yr Economi Sylfaenol - Panel 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyngor Preston a Chwmni Bro Ffestiniog.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y tystion i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â phwyntiau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 3 a 4.

## 7 Yr economi werdd: Trafod y materion allweddol

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y materion allweddol. Cytunodd y Pwyllgor i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 8 Trafodaeth ar adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol

8.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am fonitro masnach a chytunodd i gyhoeddi'r adroddiad.